# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol - 2024/25

## Cynnwys

Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol - 2024/25 ... 1
Rhagair ... 3
Crynodeb Gweithredol ... 4
Cyd-destun deddfwriaethol a Chenedlaethol ... 5
Llywodraethu a Monitro ... 6
Amcan 1 – Gwella'r profiad a'r canlyniadau i'n cwsmeriaid ... 6
Amcan 2 – Sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn cael mynediad at gymorth ac yn byw heb ofn trais neu gam-drin ... 7
Amcan 3 – Mynd i'r afael â thlodi a chefnogi byw'n annibynnol ... 8
Amcan 4 – Annog cyfranogiad ac ymgysylltu ... 9
Amcan 5 – Sicrhau bod lleoliadau addysg yn rhydd o wahaniaethu a bwlio ... 11
Amcan 6 – Gwella amrywiaeth yn y gweithlu ... 12
Ein Gwaith Partneriaeth a Chydweithredu ... 13
Uchafbwyntiau Ymgysylltu ac Ymgynghori ... 13
Astudiaethau Achos ac Arfer Da ... 14
Gwybodaeth am Gyflogaeth ... 15
Cyflogeion ar 31 Mawrth 2017 yn ôl Gradd ... 16
Recriwtio ... 18
Cyflogaeth a Dysgu ... 20
Ymadawyr ... 21
Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26 ... 22

## Rhagair

Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae'n bleser gennym gyflwyno'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol cyntaf ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–2028. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu blwyddyn o weithgarwch ystyrlon, partneriaeth a myfyrio wrth i ni weithio tuag at Ben-y-bont ar Ogwr decach a mwy cynhwysol lle gall pawb gael mynediad at y gwasanaethau, y cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.

Dros y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi parhau i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd ar ein gwaith — o ddarparu gwasanaethau rheng flaen i ymgysylltu â'r gymuned a datblygu'r gweithlu. Rydym wedi cryfhau trefniadau partneriaeth, wedi cynyddu hygyrchedd cyfathrebu, hyrwyddo cydraddoldeb yn ein hysgolion, ac wedi dathlu amrywiaeth y cymunedau sy'n gwneud Pen-y-bont ar Ogwr yn lle mor fywiog i fyw a gweithio ynddo.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y cynnydd yr ydym wedi'i wneud a'r meysydd lle gwyddom fod angen gweithredu pellach. Mae ein hymrwymiad yn parhau i fod yn glir: nid yw cydraddoldeb a chynhwysiant yn ystyriaethau ychwanegol ond yn rhan annatod o sut rydym yn cynllunio, cyflawni a gwerthuso popeth a wnawn.

## Crynodeb Gweithredol

Yn ystod 2024–2025, mae'r Cyngor wedi cyflawni cynnydd diriaethol yn erbyn y chwe amcan a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–2028. Mae ein gwaith wedi'i siapio gan egwyddorion Cymru Fwy Cyfartal, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol, a Safonau'r Gymraeg.

Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

- Sicrhau bod holl gyfathrebiadau'r Cyngor yn gynhwysol ac yn gynrychioliadol o'n cymunedau.
- Gwneud gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn fwy hygyrch i breswylwyr ag anghenion ychwanegol.
- Cydnabod pobl â phrofiad gofal yn ffurfiol fel grŵp gwarchodedig o fewn polisi ac arferion lleol.
- Cryfhau partneriaethau rhanbarthol trwy Gynghorau Balch a Thîm Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin.
- Cyflwyno prosiectau i fynd i'r afael â throseddau casineb, dathlu amrywiaeth, a hyrwyddo cynhwysiant ym mhob rhan o Ben-y-bont ar Ogwr.
- Parhau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol trwy raglenni sy'n cefnogi byw'n annibynnol, addysg a chyflogaeth.

Er bod y cynnydd yn galonogol, mae heriau'n parhau - yn enwedig o ran cynnal cyllid ar gyfer rhaglenni cydraddoldeb, gwella cyfranogiad mewn hyfforddiant cydraddoldeb, ac ehangu ymgysylltiad â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

Bydd y gwersi o 2024–25 yn llywio ein ffocws ar gyfer 2025–26 a thu hwnt.

## Cyd-destun deddfwriaethol a Chenedlaethol

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 un fframwaith cyfreithiol i amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.  Mae adran 149 y Ddeddf yn nodi'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus (DCSC), sy'n berthnasol i holl swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus — gan gynnwys datblygu polisi, darparu gwasanaethau a chyflogaeth.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi ystyriaeth ddigonol i'r canlynol:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheiny nad ydynt yn rhannu'r fath nodweddion.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig a'r rheiny nad oes ganddynt y fath nodweddion.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar gyrff cyhoeddus Cymru, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt osod a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb, paratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol, asesu effaith polisïau ac arferion, casglu a chyhoeddi data'r gweithlu, ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd.

O dan Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym yng Nghymru yn 2021. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau — megis gosod blaenoriaethau, dyrannu adnoddau neu ddylunio gwasanaethau — roi sylw dyledus i sut y gallai'r penderfyniadau hynny helpu i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Nid yw'n ymestyn i benderfyniadau gweithredol neu gyflogaeth unigol; mae cydraddoldeb mewn cyflogaeth yn cael ei gynnwys yn y dyletswyddau ehangach o fewn y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus.

Gyda'i gilydd, mae'r dyletswyddau hyn — ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a fframweithiau Llywodraeth Cymru fel Cymru Fwy Cyfartal a Chynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol — yn darparu sylfaen ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2024–2028.

## Llywodraethu a Monitro

Mae gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei oruchwylio gan Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb a Chysylltiadau â Gweithwyr, gyda chymorth gan y Tîm Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am gyflawni camau sy'n berthnasol i'w meysydd gwasanaeth, gan adrodd bob chwarter trwy Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor.

Mae cynnydd yn cael ei fonitro gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol - gan gynnwys asesiadau effaith cydraddoldeb, adborth ymgysylltu, cyfranogiad hyfforddiant a data gwasanaeth. Mae cynnydd blynyddol yn cael ei adrodd yn gyhoeddus drwy'r adroddiad hwn a'i rannu â Llywodraeth Cymru a phartneriaid.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyfrannu at ystod o rwydweithiau cydweithredol — megis Cynghorau Balch, Partneriaeth Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin, a Rhwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb Cymru Gyfan — gan sicrhau bod profiadau Pen-y-bont ar Ogwr yn llywio gwaith cydraddoldeb rhanbarthol a chenedlaethol.

## Amcan 1 – Gwella'r profiad a'r canlyniadau i'n cwsmeriaid

Camau Gweithredu Allweddol ac Effaith

- Cyfathrebu Cynhwysol: Mae holl ddeunyddiau cyfathrebu'r Cyngor a'r cyhoedd bellach yn adlewyrchu cymunedau LGBTQ + a lleiafrifoedd ethnig yn well. Mae'r Tîm Cyfathrebu a Marchnata yn nodi diwrnodau ymwybyddiaeth allweddol trwy gyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd goleuadau adeiladu a hyrwyddo digwyddiadau.

- Ymgynghoriadau Hygyrch: Ailgynlluniwyd yr Arolwg Cyllideb i gefnogi cyfranogwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae fersiwn hawdd ei ddarllen yn cael ei datblygu ar gyfer pobl ifanc yn dilyn ymgynghoriad â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr.

- Fformatau Hygyrch: Mae'r holl ymgynghoriadau a dogfennau ategol bellach ar gael mewn fformatau BSL, Hawdd ei Ddarllen, Braille, print bras a fformatau heb fod yn ddigidol ar gais.

- Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Diweddarwyd y pecyn cymorth AEA a'r ffurflenni sgrinio i gynnwys profiad gofal fel nodwedd

warchodedig, a hysbyswyd staff trwy negeseuon corfforaethol a diweddariadau e-ddysgu.

- Digwyddiadau Cymunedol a Chydlyniant: Mae digwyddiadau dathlu lleol a rhaglenni grantiau bach wedi hyrwyddo cysylltiadau cymunedol cadarnhaol ac wedi dathlu amrywiaeth, gyda chefnogaeth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Thîm Cydlyniant Bae'r Gorllewin.

Dadansoddiad

Mae integreiddio safonau hygyrchedd a delweddau cynhwysol i bob cyfathrebu wedi gwella ymddiriedaeth a chyfranogiad ymhlith trigolion. Mae blaenoriaethau yn y dyfodol yn cynnwys cryfhau dolenni adborth gan breswylwyr i fesur boddhad â hygyrchedd a chynhwysiant.

Yn ogystal, mae cynnwys profiad gofal o fewn Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn dangos bod y Cyngor yn ystyried anfantais strwythurol ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig.

## Amcan 2 – Sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn cael mynediad at gymorth ac yn byw heb ofn trais neu gam-drin

Camau Gweithredu Allweddol ac Effaith

- Cynghorau Balch: Cadeiriodd Pen-y-bont ar Ogwr y Rhwydwaith Cynghorau Balch, gan gyfarfod bob deufis gydag awdurdodau lleol eraill i gydlynu digwyddiadau Pride a datblygu polisi ac arferion cynhwysol LHDTC+.

- Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb: Gweithiodd y Cyngor gyda Heddlu a Chymorth Dioddefwyr De Cymru i gyflwyno ymgyrchoedd wedi'u targedu, gan gynnwys gweithdai cymunedol a stondinau ymwybyddiaeth yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2024.

- Ap StreetSnap: Mae hyrwyddo parhaus yr offeryn adrodd digidol hwn wedi cynyddu ymwybyddiaeth o sut i adrodd am bryderon diogelwch lleol.

- Gweithio Cydweithredol: Drwy Dîm Cydlyniant Bae'r Gorllewin, mae'r Cyngor wedi cynnal cysylltiadau agos â Swyddogion Troseddau Casineb Heddlu De Cymru a Swyddogion Ymgysylltu ag Ieuenctid.

- Cymorth i Ddioddefwyr a Hyfforddiant: Mae ffurflenni monitro tensiwn a mecanweithiau adrodd a rennir wedi gwella cydlynu rhwng asiantaethau. Mae cyfleoedd hyfforddi yn cael eu cylchredeg yn rheolaidd i bartneriaid cymunedol.

- Ymgyrchoedd Wedi'u Targedu: Roedd tair ymgyrch flynyddol yn canolbwyntio ar bobl hŷn, anabledd dysgu a dioddefwyr gwrywaidd, pob un wedi'i gyflwyno trwy stondinau codi ymwybyddiaeth, cynnwys cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu â phartneriaid.

Heriau

Arweiniodd newidiadau ariannol ym mis Ebrill 2025 at golli Cynghorwyr Trais Annibynnol Ieuenctid (CTAI), gan effeithio ar allu'r Cyngor i gynnal dull addysg gyfan o drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Er gwaethaf hyn, mae gwasanaethau allgymorth a galw heibio wedi cynyddu, gan ddangos bod ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn gwella mynediad at gymorth.

Dadansoddiad

Mae ymgysylltiad rhagweithiol y Cyngor wedi cryfhau hyder y cyhoedd a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r cynnydd mewn atgyfeiriadau traws-asiantaeth a chyfranogiad mewn ymgyrchoedd lleol yn adlewyrchu ymwybyddiaeth gymunedol gynyddol.

## Amcan 3 – Mynd i'r afael â thlodi a chefnogi byw'n annibynnol

Camau Gweithredu Allweddol ac Effaith

- Cydnabyddiaeth o Brofiad Gofal: Ym mis Ebrill 2024, pasiodd y Cyngor gynnig ffurfiol yn cydnabod pobl sydd â phrofiad gofal fel grŵp gwarchodedig sy'n debygol o wynebu gwahaniaethu. Diweddarwyd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a deunyddiau hyfforddiant yn unol â hynny.

- Rhaglen Bwyd a Hwyl: Cymerodd pedair ysgol ran yn y Rhaglen Bwyd ac Hwyl Ysgol genedlaethol yn ystod haf 2025, gan fod o fudd i 160 o blant a

dderbyniodd 2,730 o brydau iach gyda'i gilydd. Cyflwynwyd cyfanswm o 144 o sesiynau gweithgarwch corfforol a 32 sesiwn maeth.

- Data Digartrefedd: Nodwyd bod 523 o aelwydydd yn gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaeth yn ystod 2024–25, gyda 258 wedi'u lletya dros dro ar ddiwedd y flwyddyn.

- Integreiddio Polisi: Mae'r holl brif newidiadau polisi bellach yn cael eu sgrinio ar gyfer effaith economaidd-gymdeithasol, gan sicrhau bod anfantais yn cael ei ystyried ochr yn ochr â ffactorau cydraddoldeb.

- Canllawiau ar gyfer Staff: Datblygwyd adnoddau newydd i helpu staff i ddeall sut mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn rhyngweithio â chyfraith cydraddoldeb.

Dadansoddiad

Trwy ymgorffori'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r nodwedd profiad gofal i wneud penderfyniadau, mae'r Cyngor wedi ehangu ei lens cydraddoldeb y tu hwnt i nodweddion gwarchodedig traddodiadol.

Mae mentrau fel Bwyd a Hwyl yn dangos cydweithrediad ymarferol, traws-wasanaeth sy'n cefnogi lles ac yn atal ynysu.

Mae blaenoriaethau yn y dyfodol yn cynnwys gwella cysondeb casglu data ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig â thlodi a datblygu llwybrau cymorth ychwanegol i aelwydydd mewn llety dros dro.

## Amcan 4 – Annog cyfranogiad ac ymgysylltu

Camau Gweithredu Allweddol ac Effaith

- Fframwaith Ymgynghori: Adolygwyd Pecyn Cymorth Ymgynghori ac Ymgysylltu y Cyngor i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb wedi'u hadeiladu ym mhob cam o ymgysylltu.

- Mae pob ymgynghoriad newydd bellach yn gofyn am sgrinio asesiad effaith cydraddoldeb cynnar, gan sicrhau bod fformatau hygyrch ar gael a

bod grwpiau cynrychioliadol yn cael eu gwahodd yn rhagweithiol i gymryd rhan.

- Cynllun Grantiau Bach Cydlyniant Cymunedol: Cefnogwyd ystod o brosiectau lleol sy'n hyrwyddo cynhwysiant, cyfeillgarwch a dealltwriaeth - gan gynnwys digwyddiadau cymunedol rhyngddiwylliannol, gweithdai celfyddydol, a gweithgareddau sy'n targedu unigrwydd ac ynysigrwydd.

- Arolygon Hygyrch: Cafodd cwestiynau monitro cydraddoldeb eu mireinio i wella ansawdd data a mewnwelediad i bwy sy'n ymgysylltu ag ymgynghoriadau'r Cyngor.

- Ymgysylltu Rhyng-ffydd: Gweithiodd y Cyngor gyda Phrifysgol Abertawe a Chyngor Rhyng-ffydd Cymru ar gystadleuaeth greadigol ar gyfer Wythnos Rhyng-ffydd 2024, ar y thema "Cartref", sy'n archwilio perthyn, ffydd a hunaniaeth ddiwylliannol.

- Cynhwysiant Digidol: Cefnogodd y Tîm Ymgysylltu breswylwyr â mynediad cyfyngedig at y rhyngrwyd trwy gynnig arolygon papur, cyfweliadau ffôn, ac allgymorth trwy leoliadau cymunedol.

- Rhwydweithiau Staff: Gwahoddwyd gweithwyr i ymuno neu sefydlu rhwydweithiau staff o dan bedair thema — Anabledd, Menopos, LHDTC+, a'r Gymraeg — i gryfhau ymgysylltiad mewnol a darparu mannau cymorth dan arweiniad cymheiriaid.

Dadansoddiad

Mae'r gweithgaredd eleni wedi ehangu cyrhaeddiad ymgynghori ac ymgysylltu, yn enwedig ymhlith trigolion a allai fod wedi'u heithrio o'r dulliau arolwg traddodiadol o'r blaen.

Mae dulliau partneriaeth wedi cryfhau ymddiriedaeth o fewn cymunedau a chynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch dinesig.

## Amcan 5 – Sicrhau bod lleoliadau addysg yn rhydd o wahaniaethu a bwlio

Camau Gweithredu Allweddol ac Effaith

- Parhaodd Grŵp Cydraddoldeb Addysg ac Ymgysylltu i Bobl Ifanc i gyfarfod yn rheolaidd, gan gefnogi ysgolion i rannu arferion gorau a chysoni mecanweithiau adrodd ar gyfer digwyddiadau gwahaniaethol.

- Data a Monitro: Mae gwaith wedi mynd rhagddo i wella'r gwaith o gofnodi digwyddiadau bwlio sy'n seiliedig ar ragfarn ar draws ysgolion, gan alluogi gwell dadansoddiad o dueddiadau a chymorth wedi'i dargedu.

- Mentrau Gwrth-Hiliol a Gwrth-Fwlio: Mae ysgolion wedi cael eu hannog i ymgysylltu â Fframwaith Addysg Gwrth-Hiliol Cymru. Mae prosiect Hyrwyddwyr Gwrth-Hiliol Pencoed (PARCH) wedi grymuso dysgwyr i hyrwyddo cydraddoldeb a dealltwriaeth yn eu hysgolion.

- Cwricwlwm Cynhwysol: Mae ysgolion yn parhau i ymgorffori egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, sy'n pwysleisio amrywiaeth, hawliau dynol a dinasyddiaeth fyd-eang.

- Grwpiau Pride Ysgol: Mae'r Cyngor yn parhau i annog a chefnogi ysgolion sy'n sefydlu clybiau Pride neu gydraddoldeb sy'n rhoi llais i ddisgyblion wrth lunio amgylcheddau cynhwysol.

Dadansoddiad

Mae ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn fwyfwy hyderus wrth drafod materion cydraddoldeb a hunaniaeth. Mae mentrau dan arweiniad dysgwyr fel PARCH, a grwpiau Pride ysgol wedi creu newid diwylliannol gweladwy a strwythurau cymorth cyfoedion.

Bydd gwaith parhaus i wella monitro digwyddiadau a hyfforddiant staff yn sicrhau dulliau cyson mewn ysgolion. Bydd y camau nesaf yn cynnwys datblygu siarter gwrth-fwlio ar y cyd a sicrhau bod pob corff llywodraethu yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Amcan 6 – Gwella amrywiaeth yn y gweithlu

Camau Gweithredu Allweddol ac Effaith

- Rhwydweithiau Staff: Pedwar rhwydwaith staff gweithredol gan gynnwys Anabledd, Menopos, LHDTC+, a'r Gymraeg sy'n darparu mannau diogel i staff rannu profiadau, dylanwadu ar bolisi, a chynnig cymorth cyfoedion.

- Cydnabyddiaeth o Brofiad Gofal: Diweddarwyd dogfennau monitro cydraddoldeb a deunyddiau hyfforddi i gynnwys profiad gofal fel nodwedd warchodedig.

- Hyfforddiant a Datblygiad: Mae e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Gorfodol yn parhau i gael ei ddarparu, gyda modiwlau newydd ar ragfarn anymwybodol a chyfathrebu cynhwysol.

- Ymrwymiad Cyflog Byw: Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw Go Iawn, gan adlewyrchu ei ymrwymiad i gyflog teg a chydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

- Adolygiad Polisi: Mae'r Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei adolygu i alinio â newidiadau deddfwriaethol ac adborth gan rwydweithiau staff.

- Monitro Data Recriwtio: Mae'r gwaith yn parhau i wella'r broses o gasglu a dadansoddi data recriwtio a chadw i lywio camau gweithredu wedi'u targedu.

Dadansoddiad

Mae newid diwylliannol yn cymryd amser, ond mae adborth staff yn dangos ymwybyddiaeth a hyder cynyddol wrth drafod materion cydraddoldeb. Mae sefydlu rhwydweithiau staff yn garreg filltir bwysig wrth adeiladu diwylliant sefydliadol cefnogol, cynhwysol.

Mae blaenoriaethau yn y dyfodol yn cynnwys cynyddu cyfraddau cwblhau ar gyfer e-ddysgu, gwella tryloywder data gweithlu, a chysylltu adborth rhwydwaith ag adolygiadau polisi AD.

## Ein Gwaith Partneriaeth a Chydweithredu

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i gydnabod bod angen partneriaethau cryf i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu.

Mae'r cydweithrediadau allweddol yn ystod 2024–25 yn cynnwys:

- Cynghorau Balch: Cadeiriodd Pen-y-bont ar Ogwr y rhwydwaith Cymru gyfan hwn, gan hyrwyddo cydraddoldeb i drigolion a gweithwyr LHDTC+ ar draws awdurdodau lleol.
- Tîm Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin: Cyflawni prosiectau cydlyniant ar y cyd ar draws Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, gan ganolbwyntio ar atal troseddau casineb, cynhwysiant a diogelwch cymunedol.
- Rhwydweithiau Cydraddoldeb Rhanbarthol: Cyfranogiad rheolaidd yng Ngrŵp Swyddogion Cydraddoldeb Cymru Gyfan, Fforwm Swyddogion y Gymraeg, a'r Grŵp Llywio Cydlyniant Rhanbarthol.
- Partneriaethau Lleol: Mae mentrau ar y cyd â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr, Heddlu De Cymru, cymdeithasau tai a sefydliadau cymunedol wedi cyflawni canlyniadau cydraddoldeb lleol ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.

Mae'r partneriaethau hyn yn parhau i sicrhau bod Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn gysylltiedig â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol, tra'n cyflawni canlyniadau ystyrlon yn lleol.

## Uchafbwyntiau Ymgysylltu ac Ymgynghori

Mae ymagwedd y Cyngor at ymgysylltu yn adlewyrchu ei werthoedd o dryloywder, cynhwysiant a hygyrchedd.

Yn ystod 2024–25, cynhaliwyd dros 30 o ymgynghoriadau cyhoeddus, pob un yn ymgorffori sgrinio cydraddoldeb i sicrhau tegwch a chynhwysiant. Roedd enghreifftiau'n cynnwys:

- Ymgynghoriad ar Gyllideb 2024-25: Darparwyd fformatau hygyrch mewn fformatau BSL, Hawdd ei Ddarllen, print bras, a digidol, gyda fersiynau wedi'u cyfieithu ar gael yn y Gymraeg ac ieithoedd cymunedol eraill.
- Ymgynghoriad ar Deithio Llesol: Mae cydweithio â grwpiau anabledd lleol wedi gwella hygyrchedd llwybrau Teithio Llesol, gan ddylanwadu ar flaenoriaethau seilwaith.

- Arolwg Diogelwch Cymunedol ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: Sicrhawyd bod lleisiau o gymunedau amrywiol, gan gynnwys pobl ifanc a thrigolion mewn ardaloedd gwledig, yn cael eu cynrychioli.
- Mae gwelliannau parhaus i'r porth ymgynghori corfforaethol a hyfforddiant staff yn parhau i gryfhau, ansawdd a chyrhaeddiad ymgysylltu.

## Astudiaethau Achos ac Arfer Da

Cydweithrediad Cynghorau Balch:

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i chwarae rôl arweiniol yn y bartneriaeth hon, gan helpu i gydlynu ymgyrchoedd gwelededd Pride Cymru gyfan a rhannu arferion gorau o ran cynhwysiant LHDTC+.

Rhaglen Bwyd a Hwyl:

Wedi'i gyflwyno ar draws pedair ysgol, gan ddarparu prydau bwyd a gweithgareddau lles i dros 160 o blant, gwelodd y rhaglen faeth, gweithgarwch corfforol a rhyngweithio cymdeithasol yn ystod gwyliau'r ysgol.

Grantiau Cydlyniant Cymunedol:

Roedd cyllid yn cefnogi prosiectau lleol sy'n hyrwyddo perthyn, megis gweithgareddau rhwng cenedlaethau, gwyliau diwylliannol, a phrosiectau celf sy'n dathlu amrywiaeth.

Wythnos Rhyng-ffydd – Prosiect 'Cartref':

Cystadleuaeth greadigol gydweithredol sy'n cynnwys dysgwyr o Ben-y-bont ar Ogwr ac Abertawe, sy'n archwilio themâu perthyn, cynhwysiant a hunaniaeth a rennir.

Grŵp Cydraddoldebau EEYYP:

Daethpwyd â staff ysgol a gweithwyr ieuenctid ynghyd i rannu ymarfer, hyrwyddo cysondeb, a grymuso pobl ifanc i fynd i'r afael â gwahaniaethu mewn lleoliadau addysg.

## Gwybodaeth am Gyflogaeth

Mae'r manylion yn yr adran hon yn seiliedig ar wybodaeth am gyflogaeth ar 31 Mawrth 2025 ac ar y pwynt hwnnw roedd 5,947 o weithwyr mewn 7,501 o swyddi gan gynnwys y rhai a gyflogwyd mewn ysgolion.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dangosfyrddau ar y data, pan gaiff ei ddatgelu, ar nodweddion gwarchodedig y gweithlu. Darperir gwybodaeth am yr adroddiad hwn yn wirfoddol gan weithwyr. Mae'r wybodaeth yn dangosfwrdd y gweithlu yn seiliedig ar gyfrif cyffredinol y gweithwyr.

Disodlwyd rhifau o dan 10 yn ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig gan * er mwyn eu cadw'n ddienw.




Yn ystod y flwyddyn 2024/2025, mae 176 o weithwyr wedi cymryd absenoldeb mamolaeth, 28 wedi cymryd absenoldeb tadolaeth ac nid oes unrhyw weithwyr wedi cymryd absenoldeb mabwysiadu.

<u>Y Gymraeg</u>
Yn ystod 2023/2024 roedd categorïau'r Gymraeg wedi'u diweddaru i sicrhau cysondeb ar draws lefelau cenedlaethol. Ar 31 Mawrth 2025 cynyddodd nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y cyngor i 28%, cynnydd o 2% o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mae Atodiad 1 yn manylu ar y ddisgrifwyr Cymraeg i staff asesu eu hunain yn eu herbyn.

| Siarad Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 1985 |
| A1 - Lefel Mynediad | 1203 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 31 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 167 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 256 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 22 |
| Dewis peidio â dweud | 21 |
| Heb ei Ddatgan | 2255 |

| Darllen Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 1992 |
| A1 - Lefel Mynediad | 1167 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 34 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 189 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 254 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 25 |
| Dewis peidio â dweud | 22 |
| Heb ei Ddatgan | 2256 |

| Ysgrifennu Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 2234 |
| A1 - Lefel Mynediad | 968 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 34 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 162 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 242 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 20 |
| Dewis peidio â dweud | 21 |
| Heb ei Ddatgan | 2259 |

| Gwrando Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 462 |
| A1 - Lefel Mynediad | 360 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 48 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 29 |
| B2 - Lefel Uwch | 10 |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 17 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 38 |
| Dewis peidio â dweud | 24 |
| Heb ei Ddatgan | 4959 |

Mae nifer o weithwyr (3754 / 63.12%) wedi cwblhau modiwlau E-Ddysgu'r Cyngor ar ymwybyddiaeth y Gymraeg ers iddo ddod yn fodiwl e-ddysgu gorfodol. Roedd 20 o weithwyr hefyd wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu ar safonau'r Gymraeg.

## Cyflogeion ar 31 Mawrth 2017 yn ôl Gradd

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rhoddwyd ein strwythur cyflogau a graddau ar waith ar 1 Medi 2013 ac mae mecanwaith clir a chadarn ar gyfer gwerthuso graddau perthnasol y swyddi. Mae hyn ar sail rolau a chyfrifoldebau yn hytrach na ffactorau unigol sy'n berthnasol i'r cyflogai.

Mae'r tabl isod yn dangos y rhywedd ym mhob un o'r grwpiau gradd ac mae'r rhain yn cael eu cyfrif fesul swydd (7,501), nid personau.

| Gradd | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Graddau Gwerthuso Swydd 1 – 8 (£23,656 - £31,586) (ar 31.03.2025) | 4320 | 770 |
| Graddau Gwerthuso Swydd 9 – 10 (£33,366 - £37,938) (ar 31.03.2025) | 269 | 121 |
| Graddau Gwerthuso Swydd 11 – 16 (£39,513 - £59,191) (ar 31.03.2025) | 383 | 159 |
| Prif Swyddogion (£62,460 - £155,974) (ar 31.03.2025) | 10 | 12 |
| Soulbury a swyddogion ieuenctid (£26,954 - £76,263) (Soulbury ar 01.09.2024 / ieuenctid ar 01.09.2024) | 80 | 10 |
| Athrawon heb eu cymhwyso, athrawon, penaethiaid, dirprwyon a phenaethiaid cynorthwyol (£21,812 - £140,685) (ar 1.09.2024) | 1029 | 338 |




## Y Gymraeg

| Siarad Cymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori Iaith Gymraeg / Gradd** | **Gradd 1-8** | **Gradd 9-10** | **Gradd 11-16** | **Prif Swyddogion** | **Swyddogion Soulbury / Ieuenctid** | **Athrawon** |
| Dim Sgiliau | 1408 | 173 | 297 | 14 | 26 | 67 |
| A1 - Lefel Mynediad | 719 | 105 | 122 | 2 | 19 | 236 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 17 | * | * | 0 | * | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 59 | * | 18 | * | * | 80 |
| B2 - Lefel Uwch | * | * | 0 | 0 | 0 | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 105 | 24 | 24 | 0 | * | 98 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 14 | 0 | * | 0 | * | * |
| Dewis peidio â dweud | 1325 | 58 | 60 | * | * | 802 |
| Heb ei Ddatgan | 19 | 0 | * | 0 | * | 0 |

| Darllen Cymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori Iaith Gymraeg / Gradd** | **Gradd 1-8** | **Gradd 9-10** | **Gradd 11-16** | **Prif Swyddogion** | **Swyddogion Soulbury / Ieuenctid** | **Athrawon** |
| Dim Sgiliau | 1415 | 175 | 306 | 12 | 21 | 63 |
| A1 - Lefel Mynediad | 686 | 104 | 112 | * | 25 | 236 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 21 | * | * | 0 | * | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 78 | * | 19 | * | * | 84 |
| B2 - Lefel Uwch | * | * | * | 0 | 0 | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 107 | 22 | 22 | 0 | * | 98 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 16 | 0 | * | 0 | * | * |
| Dewis peidio â dweud | 1325 | 60 | 60 | * | * | 802 |
| Heb ei Ddatgan | 20 | * | * | 0 | * | 0 |

| Ysgrifennu Cymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg / Gradd | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Prif Swyddogion | Swyddogion Soulbury / Ieuenctid | Athrawon |
| Dim Sgiliau | 1562 | 201 | 350 | 15 | 26 | 80 |
| A1 - Lefel Mynediad | 562 | 80 | 71 | * | 22 | 232 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 21 | * | * | 0 | 0 | 10 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 62 | * | 21 | * | 0 | 71 |
| B2 - Lefel Uwch | * | * | * | 0 | 0 | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 101 | 20 | 20 | 0 | * | 96 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 13 | 0 | * | 0 | * | * |
| Dewis peidio â dweud | 1327 | 59 | 60 | * | * | 803 |
| Heb ei Ddatgan | 19 | 0 | * | 0 | * | 0 |

| Gwrando Cymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg / Gradd | Gradd 1-8 | Gradd 9-10 | Gradd 11-16 | Prif Swyddogion | Swyddogion Soulbury / Ieuenctid | Athrawon |
| Dim Sgiliau | 343 | 26 | 79 | * | * | * |
| A1 - Lefel Mynediad | 244 | 32 | 40 | 0 | 13 | 31 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 25 | * | * | 0 | * | 15 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 18 | 0 | * | 0 | 0 | * |
| B2 - Lefel Uwch | * | * | * | 0 | 0 | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 12 | * | * | 0 | * | 0 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 22 | * | 10 | 0 | * | * |
| Dewis peidio â dweud | 2981 | 303 | 389 | 20 | 33 | 1233 |
| Heb ei Ddatgan | 22 | 0 | * | 0 | * | 0 |

## Recriwtio

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, derbyniom 6,306 cais am swydd trwy system recriwtio AD am 833 swydd gan 3,899 ymgeisydd yn cynnwys ymgeiswyr mewnol ac allanol. Nid yw'r data yn cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan rai ysgolion. Llwyddodd 719 o ymgeiswyr i gael cyflogaeth gyda BCBC yn ystod y cyfnod hwn. Mewn rhai achosion, nid oedd ceisiadau yn datgan gwybodaeth i bob nodwedd warchodedig.

Lle defnyddiwyd dadansoddiad canrannol, mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr ymgeiswyr neu gyfanswm nifer yr ymgeiswyr penodedig.




## Y Gymraeg

Mae dwy set o ddata wedi'u tynnu at ei gilydd ar gyfer y Gymraeg yn ymwneud â data recriwtio. Mae'r rhain yn dangos nifer yr ymgeiswyr a nifer yr ymgeiswyr penodedig sydd â sgiliau Cymraeg.

**Pob Ymgeisydd**

| Categori Iaith Gymraeg | Siarad Cymraeg – Nifer | Darllen Cymraeg – Nifer | Ysgrifennu Cymraeg – Nifer | Gwrando Cymraeg – Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Dim Sgiliau | 1769 | 1932 | 2091 | 1829 |
| A1 - Lefel Mynediad | 1233 | 1070 | 965 | 1155 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 395 | 306 | 297 | 306 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 150 | 149 | 119 | 135 |
| B2 - Lefel Uwch | 42 | 48 | 40 | 48 |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 52 | 56 | 60 | 39 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 125 | 126 | 113 | 146 |
| Dewis peidio â dweud | 75 | 147 | 147 | 171 |
| Heb ei Ddatgan | 148 | 65 | 67 | 70 |

**Ymgeiswyr Penodedig**

| Categori Iaith Gymraeg | Siarad Cymraeg – Nifer | Darllen Cymraeg – Nifer | Ysgrifennu Cymraeg – Nifer | Gwrando Cymraeg – Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Dim Sgiliau | 280 | 309 | 277 | 340 |
| A1 - Lefel Mynediad | 241 | 206 | 222 | 183 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 17 | 22 | 26 | 21 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 26 | 26 | 19 | 21 |
| B2 - Lefel Uwch | * | * | * | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 14 | 15 | 12 | 16 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 23 | 23 | 28 | 20 |
| Dewis peidio â dweud | 14 | 99 | 114 | 99 |
| Heb ei Ddatgan | 99 | 14 | 16 | 14 |

## Cyflogaeth a Dysgu

Darpariaeth hyfforddiant staff corfforaethol y Cyngor:

- **Hyfforddiant ôl-mynediad** – hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth yr ymgeisia cyflogeion amdano trwy'r polisi hyfforddi ôl-mynediad. Ceisiadau a gymeradwya'r rheolwyr llinell yn unig a anfonir i'r Adnoddau Dynol ac felly, nid oes modd nodi'r rhai a'u gwrthodwyd.

- **Hyfforddiant wyneb yn wyneb** – mae rhan fwyaf ein hyfforddiant wyneb yn wyneb yn targedu cyflogeion ar sail natur a chyfrifoldebau'r rôl.

- **E-ddysgu** – darperir rhan fwyaf yr hyfforddiant corfforaethol trwy e-ddysgu y gall cyflogeion gael mynediad atynt yn uniongyrchol yn rhan fwyaf yr achosion.

Yn ystod 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 roedd yr holl raglenni hyfforddiant yn weithredol gyda rhaglen helaeth o gyflwyno yn cael ei chynnig ar-lein. Cwblhawyd 13,367 o fodiwlau e-ddysgu gan 3428 o weithwyr (mynychwyr) yn ystod y flwyddyn. Pan ddefnyddiwyd dadansoddiad canrannol, mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cynrychiolwyr sydd wedi ymgymryd ag e-ddysgu (3,428).



<u>Y Gymraeg</u>

| Siarad Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 1356 |
| A1 - Lefel Mynediad | 585 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 28 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 93 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 141 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 15 |
| Dewis peidio â dweud | 12 |
| Heb ei Ddatgan | 1192 |

| Darllen Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 1214 |
| A1 - Lefel Mynediad | 708 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 27 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 105 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 148 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 20 |
| Dewis peidio â dweud | 12 |
| Heb ei Ddatgan | 1189 |

| Ysgrifennu Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 1198 |
| A1 - Lefel Mynediad | 737 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 27 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 95 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 148 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 17 |
| Dewis peidio â dweud | 12 |
| Heb ei Ddatgan | 1189 |

| Gwrando Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 310 |
| A1 - Lefel Mynediad | 260 |
| A2 - Lefel Sylfaen | 36 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 23 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 13 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 33 |
| Dewis peidio â dweud | 14 |
| Heb ei Ddatgan | 2733 |

## Ymadawyr

Mae'r manylion canlynol yn crynhoi nodweddion gwarchodedig y 772 o unigolion a adawodd gyflogaeth y cyngor rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

Mae data ar nodweddion gwarchodedig (ac eithrio rhywedd ac oedran) yn seiliedig ar wybodaeth a ddatgelwyd yn wirfoddol gan y gweithwyr. Pan ddefnyddiwyd dadansoddiad canrannol, mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm nifer y rhai a adawodd (772).



Y Gymraeg

| Siarad Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 268 |
| A1 - Lefel Mynediad | 163 |
| A2 - Lefel Sylfaen | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 18 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 33 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 0 |
| Dewis peidio â dweud | * |
| Heb ei Ddatgan | 279 |

| Darllen Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 269 |
| A1 - Lefel Mynediad | 155 |
| A2 - Lefel Sylfaen | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 23 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 33 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | * |
| Dewis peidio â dweud | * |
| Heb ei Ddatgan | 280 |

| Ysgrifennu Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 288 |
| A1 - Lefel Mynediad | 147 |
| A2 - Lefel Sylfaen | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 16 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | 30 |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | 0 |
| Dewis peidio â dweud | * |
| Heb ei Ddatgan | 279 |

| Gwrando Cymraeg | |
|---|---|
| Categori Iaith Gymraeg | Nifer |
| Dim Sgiliau | 68 |
| A1 - Lefel Mynediad | 54 |
| A2 - Lefel Sylfaen | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | * |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| C1 - Lefel Hyfedredd | * |
| C2 - Hyfedr yn llwyr | * |
| Dewis peidio â dweud | * |
| Heb ei Ddatgan | 623 |

## Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26

1. Dyfnhau ymgysylltu a chynrychiolaeth gymunedol

- Cyd-gynhyrchu gweithgareddau ymgysylltu gyda fforymau cydraddoldeb a phartneriaid cymunedol i gyrraedd grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
- Ehangu fformatau hygyrch ac allgymorth ar gyfer ymgynghoriadau, gan gynnwys Hawdd ei Ddarllen, BSL ac opsiynau cyfieithu cymunedol.
- Datblygu calendr o ddigwyddiadau cydraddoldeb a chynhwysiant sy'n gysylltiedig â Chynghorau Balch, Cydlyniant, a phartneriaethau Rhyng-ffydd.

2. Hyrwyddo Addysg Gynhwysol a Llais Ieuenctid

- Cefnogi ysgolion i weithredu Fframwaith Addysg Gwrth-hiliol Cymru yn llawn.
- Lansio Rhwydwaith Hyrwyddwyr Cydraddoldeb i ddysgwyr rannu arfer da.
- Cryfhau systemau adrodd ac ymateb ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn ym mhob ysgol.

3. Hyrwyddo Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu

- Cynyddu cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gorfodol i'r holl staff ac aelodau etholedig.

- Parhau i hyrwyddo rhwydweithiau staff i gynyddu cynrychiolaeth o bob nodwedd warchodedig.

- Defnyddio adborth rhwydwaith staff i lunio adolygiadau polisi a gwelliannau diwylliant yn y gweithle.

- Parhau i gyhoeddi crynodeb blynyddol o gydraddoldeb y gweithlu unwaith y bydd data AD wedi'i gwblhau.

4. Parhau gyda Gweithio Rhanbarthol Cydweithredol

- Parhau i arwain a chyfrannu at y Cynghorau Balch a phartneriaethau Cydlyniant Cymunedol Bae y Gorllewin.

- Rhannu arfer da yn rhanbarthol ar gyfathrebu hygyrch ac asesiad effaith cydraddoldeb.

- Chwilio am gyfleoedd cyd-ariannu i gynnal gwaith cydraddoldeb a chydlyniant y tu hwnt i gylchoedd grantiau.